

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :
07903328655 e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. DDYDD LLUN, HYDREF
3ydd, 2016, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr D.Rhys Davies; Irwedd Griffiths; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Ifor O.Jones John D.Roberts Goronwy R.Williams, a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Goronwy Davies; Eifion Evans; Gwyndaf O.Roberts
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Dim.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Fedi 5ed, 2016, yn y Ganolfan Gymunedol, Llanelian yn Rhos.
6. MATERION YN CODI - Y cyfarfod yn ymwneud â'r arian o'r Parc Heulol yn Llanelian. Cytunwyd y byddid yn sefydlu pwyllgor ar wahân i ddelio gyda'r materion hynny, ac y byddid yn cylchredeg copi o'r munudau a gymerwyd yn y cyfarfod agoriadol ynghyd â dogfennau cyfarfod mis Tachwedd, a'u rhoi ar yr hysbysfyrdau.

Mae pob mater arall bellach wedi cael eu trin ar yr Archwiliad ward.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -
 - 10.16/7(i) NODWYD gyda diolch lythyr gan Darren Millar AC ynglŷn â gofal y Newydd-anedig, a chydnabuwyd y gwaith caled a wnaeth.
 - 10.16/7(ii) NODWYD adolygiad 2018 o'r Etholaethau Seneddol yng Nghymru.
 - 10.16/7(iii) NODWYD copi o newyddion CVSC.
 - 10.16/7(iv) NODWYD llythyr gan fenter Creating.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc am y cyfnod yn gorffen ar Fedi 21ain, 2016, sef:-
- | | |
|------------------------|------------|
| Cyfrif cymunedol | £21,969.12 |
| Cyfrif busnes | £5525.50 |
9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD NODI'r taliadau a dderbyniwyd:-
- | | |
|--------------------------|----------|
| 10.16/9(i) Praesept..... | £3000.00 |
|--------------------------|----------|
10. TALIADAU A WNAED - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir isod:-
- | | |
|--|----------|
| i. 10.16/10(i) Cyflog y Clerc | £ 287.23 |
| ii. 10.16/10(ii) HMRC...(Bacs)..... | £ 71.81 |
| iii. 10.16/10(iii) Hanner cost y cyfieithu | £ 19.00 |
11. CEISIADAU AM GRANT - CYTUNWYD i gyfeirio pob eitem a restrir isod, ynghyd ag unrhyw rai eraill a dderbynnir, i'r pwyllgor sydd wedi ei sefydlu o'r newydd.
- 10.16/11(i) Cais am fynegbost yn Llanelian (Cais Parc Heulol).
- 10.16/11(ii) Cais am ddiffibriliwr yn Llanelian.(Cais Parc Heulol).
- 10.16/11(iii) Cais am hysbysfwrdd yn Llanelian (Cais Parc Heulol).
- 10.16/11(iv) Cais gan Eglwys Sant Mihangel ynglŷn â drws yr Eglwys (Cais Parc Heulol).
12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD
- 4.16/12(i) Adroddiadau'n ymwneud â materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Ifor Lloyd fod pob eitem a restrwyd ar faterion a oedd yn codi yn y cyfarfodydd blaenorol wedi cael eu trin yn yr archwiliad ward ynghyd â Mr. Peter Harris, swyddog gyda Chyngor Sir Conwy. Edrychwyd ar bob ardal gan gynnwys y Ffromlys yr adroddwyd amdano yn Rhyd-y-Foel. Gwnaed cais am fin baw cŵn i'r briffordd yn Llanelian.

11.16/12(i) Llythyr gan Gonwy ynglŷn â phreimiymau yswiriant ar eiddo hir-dymor ac ar ail gartrefi. NODWYD y mater hwn a CHYTUNWYD i gefnogi'r cynigion a wnaed gan Gyngor Sir Conwy.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

15. UNRHYW FATER ARALL

10.16/15(i) Gosod y praesept. Fe fyddai'r praesept yn cael ei osod yng nghyfarfod mis Tachwedd.

10.16/15(ii) Materion yn ymwneud â'r archwiliad allanol. Roedd dal i ddisgwyl am yr adroddiad.

10.16/15(iii) Torchau Sul y Cofio. CYTUNWYD i'r Cadeirydd osod y dorch ddydd Sul, Tachwedd 13eg, 2016.

10.16/15(iv) Rhodd a chais 'Mrs Griffiths' gan Gomisiynwyr Elusennau.

PENDERFYNWYD peidio â chymryd cyfrifoldeb am y rhodd, ac y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Comisiynwyr eto i'w hysbysu o'r penderfyniad.

10.16/15(v) Trafodwyd a fyddid yn prynu diffibriliwr ar gyfer neuaddau pentref Llanelian a Betws yn Rhos.

10.16/15(vi) Cwyn bod gwrychoedd ger Tŷ Gwyn wedi gor-dyfu.

10.16/15(vii) Cwyn bod coeden yn tyfu allan o wal yr ysgol.

16. CYNLLUNIO -

10.16/16(i) 0/43196 Anedd ailosod arfaethedig yng Nglan Gors, Llanelian, Mr S.Brooks a Ms J.Croft. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.